# Siarad Gyda Fi – Cam 2

## Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (LIC)

### Cynllun Cyflawni 2026 i 2030

Ymgynghoriad


Llywodraeth Cymru
Welsh Government











# Helo

**Mae Llywodraeth Cymru am i bob babi a phlentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd.**

Yn 2020, fe ddechreuwon ni'r rhaglen Siarad Gyda Fi. Mae hi'n helpu i:

- sicrhau bod anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael eu sylwi'n gynnar
- sicrhau bod plant o dan 5 oed yn cael y cymorth cywir.

Mae'n ymwneud â sut mae sgwrsio bob dydd, chwarae a gwrando yn helpu plant i ddatblygu sgiliau cyfathrebu.

## Mae sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu'n bwysig iawn.

- Sut rydyn ni'n dweud geiriau.
- Y geiriau rydyn ni'n eu deall a'u defnyddio.
- Sut rydyn ni'n rhannu syniadau, teimladau ac anghenion gyda phobl eraill.

Mae'r sgiliau hyn yn:

- helpu i feithrin perthnasoedd cryf gyda ffrindiau, teulu ac eraill
- cefnogi dysgu
- magu hyder a hunan-barch
- lleihau rhwystredigaeth, gan fod plant yn gallu esbonio pethau
- cefnogi iechyd meddwl a llesiant
- gwella cyfleoedd plant mewn addysg, gwaith a bywyd
- diogelu hawliau plant a'u helpu i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu bywydau.

## Am beth mae hyn?

Mae'r rhaglen Siarad Gyda Fi wedi helpu llawer o fabanod a phlant — ond rydyn ni eisiau gwneud mwy na hynny.

Gall unrhyw blentyn, beth bynnag fo'u hoedran, fod angen help gyda'u sgiliau cyfathrebu. Felly, rydyn ni eisiau cefnogi plant hŷn hefyd, nid dim ond babanod a phlant bach.

Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthych chi am **Siarad Gyda Fi — Cam 2: Cynllun LIC 2026 i 2030.**

**Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl.**

**Atebwch y cwestiynau wrth fynd ymlaen.**



# Ein nod

Rydyn ni eisiau:

- sicrhau bod pobl yn gwybod ac yn deall pa mor bwysig yw lleferydd, iaith a chyfathrebu
- sicrhau bod babanod a phlant sydd angen help yn cael eu sylwi, ac yn cael cymorth yn y ffordd gywir, ar yr amser cywir.

## Pam mae hwn yn cael ei alw'n Siarad Gyda Fi – Cam 2?

Mae'r cynllun hwn yn cael ei alw'n Siarad Gyda Fi — Cam 2 oherwydd ei fod yn adeiladu ar y cynllun Siarad Gyda Fi cyntaf.

**Mae Cam 2 yn mynd ymhellach. Mae'n cadw'r hyn sydd eisoes yn gweithio, ond yn ychwanegu camau newydd i gefnogi plant 5 i 11 oed.**

Mae'r cynllun hwn yn cynnwys:

- pethau rydyn ni eisoes yn eu gwneud – i barhau â'r cynnydd ar gyfer plant iau
- pethau newydd – i gyrraedd mwy o blant, gan gynnwys plant hŷn, a rhoi'r cymorth cywir ar yr amser cywir.

Mae'n ymwneud â sicrhau bod pob babi a phlentyn yn cael cymorth — lle bynnag maen nhw'n byw, a beth bynnag fo'u hoedran.

**Ydych chi'n meddwl bod Siarad Gyda Fi — Cam 2 yn enw da ar gyfer y cynllun hwn?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Niwtral | Anghytuno | Anghy-tuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

Os nad ydych, pa enw fyddech chi'n ei awgrymu yn lle?



# Nod 1: Codi ymwybyddiaeth o leferydd, iaith a chyfathrebu

## Ein prif weithred

**Byddwn ni'n codi ymwybyddiaeth o sut i gefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu.**

**Byddwn ni'n parhau i:**

- rannu gwybodaeth am sut i gefnogi sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer plant o dan 5 oed
- gweithio gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod awgrymiadau lleferydd ac iaith yn cael eu cynnwys yn adnoddau Pob Plentyn
- rhannu negeseuon clir gyda staff y blynyddoedd cynnar.

## Newydd yng Ngham 2. Byddwn ni'n:

» edrych ar ymchwil i ganfod y negeseuon gorau am leferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer plant 5 i 11 oed

» cynnal ymgyrch ddwyieithog i ddangos sut mae sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant fel arfer yn datblygu rhwng 5 i 11 oed, a sut i gefnogi eu siarad a'u cyfathrebu

» rhannu negeseuon clir gyda staff ysgolion drwy adnoddau'r Cwricwlwm i Gymru

» rhannu gwybodaeth am sut y gall sgriniau a thechnoleg effeithio ar sgiliau cyfathrebu plant.

### Canlyniadau — Beth rydyn ni eisiau ei weld

- Bydd staff a theuluoedd yn gwybod sut i gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu plant.
- Bydd teuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw ar yr amser cywir gan y bobl sy'n eu hadnabod orau.

**Ydych chi'n cytuno?**

Bydd Nod 1 yn helpu babanod a phlant i wneud yn well.

| ○ Cytuno'n gryf | ○ Cytuno | ○ Niwtral | ○ Anghytuno | ○ Anghy-tuno'n gryf | ○ Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|

Sylw?



# Nod 2: Gwella sut rydyn ni'n sylwi ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu babanod a phlant

## Ein prif weithred

**Byddwn ni'n sicrhau bod sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant yn cael eu gwirio yn y ffyrdd cywir ac ar yr adegau cywir.**

**Byddwn ni'n parhau i:**

- datblygu'r offer asesu a chymorth dwyieithog ar gyfer y blynyddoedd cynnar (Prosiect Pengwin)
- defnyddio'r offer hyn yn ehangach a gwirio pa mor dda maen nhw'n gweithio.

## Newydd yng Ngham 2. Byddwn ni'n:

» gweithio gydag ysgolion i weld sut maen nhw eisoes yn sylwi ar blant sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

» gofyn i arbenigwyr adolygu'r systemau rydyn ni'n eu defnyddio i sylwi ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant 5 i 11 oed, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Canlyniadau — Beth rydyn ni eisiau ei weld**

- Bydd staff yn well am sylwi ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gynnar.
- Bydd plant yn cael y cymorth cywir, gan y person cywir, ar yr amser cywir.

**Ydych chi'n cytuno?**

Bydd Nod 2 yn helpu babanod a phlant i wneud yn well.

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Niwtral | Anghytuno | Anghy-tuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

Sylw?



# Nod 3: Sicrhau bod plant yn cael y cymorth cywir ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu pan fydd ei angen arnyn nhw

## Ein prif weithred

**Byddwn ni'n sicrhau bod pobl sy'n gweithio gyda babanod a phlant yn gwybod sut i roi'r math cywir o gymorth.**

**Byddwn ni'n parhau i:**

- datblygu a gwella offer cymorth fel rhan o Prosiect Pengwin
- defnyddio'r offer hyn yn ehangach a gwirio pa mor dda maen nhw'n gweithio
- gweithio gyda staff addysg i sicrhau bod plant o dan 5 oed yn cael y cymorth cywir ar gyfer lleferydd ac iaith, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

### Newydd yng Ngham 2. Byddwn ni'n:

» gwirio pa raglenni lleferydd ac iaith sy'n gweithio orau ar gyfer plant 5 i 11 oed yn y Gymraeg a'r Saesneg

» gwirio pa gymorth lleferydd ac iaith sy'n cael ei ddefnyddio eisoes mewn ysgolion, i weld ble mae bylchau.

### Canlyniadau — Beth rydyn ni eisiau ei weld

- Bydd plant yn cael y math cywir o gymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu ar yr amser cywir.

**Ydych chi'n cytuno?**

Bydd Nod 3 yn helpu babanod a phlant i wneud yn well.

| ○ Cytuno'n gryf | ○ Cytuno | ○ Niwtral | ○ Anghytuno | ○ Anghytuno'n gryf | ○ Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|

Sylw?



# Nod 4: Meithrin sgiliau ar draws y gweithlu fel bod mwy o blant yn cael y cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu sydd ei angen arnyn nhw

## Ein prif weithred

**Byddwn ni'n sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n dda ac yn gallu cefnogi sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu babanod a phlant.**

**Byddwn ni'n parhau i:**

- ddiweddaru a gwella'r fframwaith hyfforddi lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer y blynyddoedd cynnar
- rhannu'r fframwaith hyfforddi newydd ar gyfer plant oed ysgol a gwirio pa mor dda mae'n cael ei ddefnyddio
- darparu hyfforddiant i Ymwelwyr Iechyd a'u timau.

## Newydd yng Ngham 2. Byddwn ni'n:

- » archwilio sut y gellir rhoi gwybodaeth i Ymwelwyr Iechyd newydd, athrawon a gweithwyr cymdeithasol am leferydd, iaith a chyfathrebu
- » edrych ar ble mae hyfforddiant ar goll mewn gwahanol rannau o'r gweithlu
- » creu cwrs byr ar-lein am ddim i staff sy'n gweithio gyda phlant 5 i 11 oed
- » gweithio gydag Estyn (sy'n arolygu ysgolion) a'r Arolygiaeth Gofal (sy'n arolygu gwasanaethau) i sicrhau bod eu Harolygwyr yn ystyried lleferydd, iaith a chyfathrebu wrth gynnal adolygiadau
- » rhannu enghreifftiau o gymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu da
- » gweithio gyda thimau ar draws y DU, Iwerddon a'r byd i rannu dysgu a syniadau.

### Canlyniadau — Beth rydyn ni eisiau ei weld

- Bydd staff wedi'u hyfforddi'n dda ac â'r sgiliau i gefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu plant.
- Bydd plant yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw gan y bobl sy'n eu hadnabod orau.

**Ydych chi'n cytuno?**

Bydd Nod 4 yn helpu babanod a phlant i wneud yn well.

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Niwtral | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

Sylw?



# Nod 5: Sicrhau bod pob babi a phlentyn yng Nghymru yn gallu cael cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu

## Ein prif weithred

**Byddwn ni'n sicrhau bod plant yn gallu cael y cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu sydd ei angen arnyn nhw. Mae hyn yn cynnwys cymorth cyffredinol sydd ar gael i bawb, yn ogystal â chymorth ychwanegol.**

**Byddwn ni'n parhau i:**

- rhoi hawliau plant wrth wraidd popeth rydyn ni'n ei wneud
- defnyddio ymchwil i lywio ein gwaith
- cadw canllawiau lleferydd, iaith a chyfathrebu i staff yn gyfredol a gwirio sut maen nhw'n gweithio
- helpu gwasanaethau i weithio gyda'i gilydd i roi cymorth cydlynol
- cynllunio sut i adolygu a mesur yr hyn mae Siarad Gyda Fi wedi'i gyflawni
- helpu gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith arbenigol i gynnig cymorth yn gynharach, mewn mwy o ardaloedd.

## Newydd yng Ngham 2. Byddwn ni'n:

- » gweithio gyda thimau iechyd meddwl i sicrhau eu bod yn deall anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu
- » gweithio gyda staff ysgolion i ddangos sut mae sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cefnogi darllen ac ysgrifennu
- » gweithio gyda thimau Anghenion Dysgu Ychwanegol i weld pa hyfforddiant sydd ei angen ar staff
- » gweithio gyda gwasanaethau cyfiawnder i ddangos sut y gall cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu helpu i gadw plant allan o'r system cyfiawnder troseddol.

### Canlyniadau — Beth rydyn ni eisiau ei weld

- Bydd pob babi a phlentyn yng Nghymru yn cael y cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu sydd ei angen arnyn nhw, ble bynnag maen nhw'n byw.

### Ydych chi'n cytuno?

Bydd Nod 5 yn helpu babanod a phlant i wneud yn well.

| ○ Cytuno'n gryf | ○ Cytuno | ○ Niwtral | ○ Anghytuno | ○ Anghytuno'n gryf | ○ Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|

Sylw?



# Cwestiynau eraill

## Nawr eich bod wedi darllen y cynllun...

**Faint oed wyt ti?**

◯ 0-5 ◯ 6-11 ◯ 12+

A oes unrhyw nodau mawr eraill rydych chi'n meddwl y dylid eu hychwanegu at y cynllun hwn?

A oes unrhyw gamau ychwanegol rydych chi'n meddwl y dylid eu cynnwys yn y cynllun?

### Y Gymraeg

Sut gallai'r cynlluniau hyn effeithio ar y Gymraeg, mewn ffyrdd da neu ddrwg?

Sut y gellid newid y cynlluniau hyn i gefnogi'r Gymraeg yn well?

### Hawliau Plant

A allem ni newid y cynllun i gefnogi hawliau plant yn well, neu leihau unrhyw niwed i'r hawliau hynny?

### Un peth olaf

A oes unrhyw beth pwysig nad ydym wedi gofyn amdano, yn eich barn chi?



## Eich preifatrwydd - GDPR

Nid yw'r arolwg hwn yn gofyn am eich enw nac unrhyw wybodaeth a allai eich adnabod.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darllen yr atebion i helpu i ddeall barn pobl ifanc ac i wella eu gwaith.

Gall eich atebion gael eu rhannu gyda staff neu bartneriaid ymchwil dibynadwy sy'n helpu gyda'r ymgynghoriad hwn.

Gall yr hyn rydych chi'n ei ddweud gael ei gynnwys mewn adroddiad cryno, ond ni fydd yn cael ei gysylltu â chi.

Weithiau, efallai y bydd rhaid i Lywodraeth Cymru rannu gwybodaeth yn ôl y gyfraith, er enghraifft drwy reolau Deddf Rhyddid Gwybodaeth.

Bydd eich atebion ond yn cael eu cadw am gyfnod cyfyngedig ac yna'n cael eu dileu'n ddiogel.

# Diolch am gymryd rhan

Anfonwch eich atebion at:

SiaradGydaFi@llyw.cymru

Ymgynghoriad Siarad Gyda Fi — Cam 2
Adran Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Erbyn 30 Ebrill 2026



OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53885, ISBN digidol 978-1-80633-983-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg